**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2026 am 09:30 trwy Zoom**

**YN BRESENNOL**

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod a Swyddog Monitro (cyrhaeddodd am 09:50)
Dafydd Edwards, Trysorydd

Aelodau'r Cynllun
Rheolwr Ardal Paul Kay, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Geraint Evans, cynrychiolydd y System Dyletswydd ar Alwad (gadawodd am 10:58)
Ruth Bateman, Undeb y Brigadau Tân

Ymgynghorwyr
PSTC Helen MacArthur
Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau Tân
Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed
Aled Rees, Cronfa Bensiwn Dyfed
Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau

Yn Bresennol
Marian Rees, Cyfieithydd
Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol

**YN ABSENNOL**

Y Cyng. Gwynfor Owen, Aelod o'r Awdurdod Tân (Cynrychiolydd y Cyflogwr)
Y Cyng. Bryan Apsley, Aelod o'r Awdurdod Tân (Cynrychiolydd y Cyflogwr)

**1 YMDDIHEURIADAU**

PST Dawn Docx, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân
Y Cyng. John Brynmor Hughes, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Nick Roberts, Undeb y Brigadau Tân

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau ar gyfer yr uchod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2025 fel cofnod gwir a chywir.

## 4 DIWEDDARIAD YNGHYLCH MATERION CYFREITHIOL

4.1 Cyflwynodd Kim Jeal yr adroddiad ynghylch materion cyfreithiol a oedd yn nodi'r gofynion a'r amserlenni statudol a bennwyd yn sgil y newidiadau i ddeddfwriaeth Cynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus, ac yn fwy penodol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Cyfeirid at y rhain fel arfer fel ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).

4.2 Yn ogystal, rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ar gynnydd ar y Prosiect Dangosfwrdd Pensiynau, prosiect cenedlaethol sy'n cael ei weithredu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac a oedd â dyddiad cysylltu ar gyfer cynlluniau yn y Sector Tân ym mis Hydref 2025.

4.3 Nodwyd mai Rheolwr y Cynllun, sef Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y tri phrosiect hyn yn cael eu gweithredu mewn modd amserol, tra hefyd yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei weithredu'n gywir.

4.4 Roedd deddfwriaeth ar gyfer achosion wedi ysgaru wedi'i chwblhau ac felly gellid bwrw ymlaen â'r achosion a oedd wedi'u cynnal yn aros am hyn. Dyma'r rhan olaf o ddeddfwriaeth McCloud i gael ei chwblhau; fodd bynnag, roedd y Penderfyniad Dibynnol yn parhau i fod heb ei wneud.

4.5 Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi ymrwymo trwy'r Broses Datrys Anghydfodau Mewnol (IDRP) i gymryd cyngor cyfreithiol ar wahân, er y nodwyd bod hyn yn cael ei ddatblygu'n genedlaethol.

4.6 Gofynnodd aelod a ddylai unigolion barhau i wneud ceisiadau Penderfyniad Dibynnol, ac ymatebodd Kim Jeal y dylid eu hannog i wneud hynny, ac y gellid gofyn am ffurflenni trwy adran Pensiynau'r Gwasanaeth. Byddai hyn yn rhoi gwell syniad i'r Gwasanaeth o'r niferoedd dan sylw.

4.7 Mewn perthynas â dyfarniad O'Brien ac aelodau wedi ymddeol a'u buddiolwyr, gofynnwyd pa mor hyderus oedd Gogledd Cymru bod yr holl aelodau cymwys wedi'u cyrraedd. Ymatebodd Kim Jeal fod y Gwasanaeth yn hyderus bod pawb yr oedd y Gwasanaeth yn ymwybodol ohonynt wedi'u cofnodi; fodd bynnag, roedd rhai nad oeddent wedi ymateb ac felly roedd nodiadau atgoffa wedi'u hanfon. Anogwyd cynrychiolwyr gweithwyr i gynnwys y meini prawf cymhwysedd mewn unrhyw gyfathrebiadau a anfonwyd er mwyn osgoi unrhyw siom i'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael eu cynnwys.

4.8 Nodwyd bod diwygiadau pellach yn cael eu disgwyl i'r rheoliadau ail ddewis gan gynnwys estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer prosesu ceisiadau cymwys. Mae'r newidiadau rheoleiddiol yn cynnwys y trefniadau ar gyfer buddiolwyr sydd wedi marw. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r bwriad i ymestyn y dyddiad cau tan ddiwedd Mehefin 2026, a byddai'r diwygiadau rheoleiddiol arfaethedig yn destun cyfnod ymgynghori o 12 wythnos. Byddai hyn yn golygu bod penderfyniad yn dal i fod o leiaf dri mis i ffwrdd.

4.9 Gofynnwyd a fyddai'r amserlenni diwygiedig yn estyniad digonol i'r dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifiadau perthnasol. Cadarnhawyd y byddai'n parhau i fod yn her oherwydd y niferoedd dan sylw a chymhlethdod y cyfrifiadau, ond roedd y Gwasanaeth wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â cheisiadau mor hwylus â phosibl.

4.10 Diolchodd y PSTC MacArthur i dîm Pensiynau'r Gwasanaeth ynghyd â Chronfa Bensiwn Dyfed am y gwaith caled y maent yn parhau i'w wneud i weinyddu'r ddau ddyfarniad hyn.

4.11 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a**
- **ii) Nodi'r rhwymedigaeth statudol a roddir ar y Rheolwr Cynllun i sicrhau bod y tri phrosiect cenedlaethol yn cael eu gweithredu fel y cyfarwyddir gan y ddeddfwriaeth.**

## 5 ADRODDIAD DIWEDDARU – CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

5.1 Cyflwynodd Beccy Marfleet yr adroddiad diweddaru ar Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a'i bwrpas oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Pensiwn Lleol (LPB) ar faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

5.2 Nodwyd, er bod nifer y rolau wedi cynyddu, roedd nifer o'r rhain yn cael eu gwneud fel rolau deuol ac felly roedd nifer yr aelodau cymwys wedi gostwng mewn gwirionedd.

5.3 Dywedodd y PSTC MacArthur fod pob un o'r ceisiadau IDRP hynny a dderbyniwyd yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail oedran.

5.4 Nodwyd bod aelodau sy'n adleoli i'r cynllun o wasanaethau yn Lloegr yn profi oedi wrth gyhoeddi eu datganiadau gwasanaeth adferol a bod hyn yn bennaf oherwydd y dibyniaeth ar wybodaeth a dderbyniwyd gan weinyddwyr eraill.

5.5 Cafodd yr aelodau eu cynghori bod y cofrestriad awtomatig nesaf i fod i ddigwydd ym mis Hydref 2028. Cynlluniwyd clinigau pensiwn i roi gwybodaeth am y cynllun i gydweithwyr o'r system ddyletswydd ar alwad er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylent ymuno ai peidio.

5.6 Rhoddwyd sicrwydd bod pob dechreuwr newydd yn cael gwybodaeth yn ymwneud â'r cynllun pensiwn a'u bod hefyd yn cael eu cofrestru'n awtomatig, ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd, sy'n golygu y byddai angen i unigolyn wneud penderfyniad bwriadol i optio allan o'r cynllun. Mae cofrestru awtomatig hefyd yn digwydd pan fydd unigolyn yn cael ei ddyrchafu gan fod hyn wedi'i ddosbarthu fel rôl newydd.

5.7 Gofynnodd aelod sut roedd aelodau'n cael gwybod am glinigau pensiynau, ac a oedd terfyn oedran isaf ar gyfer cofrestru awtomatig.

5.8 Eglurwyd bod yn rhaid i unigolyn ennill dros £10,000.00 y flwyddyn a bod dros 22 oed ac o dan 75 oed er mwyn iddynt fod yn gymwys i gofrestru awtomatig. Gofynion cenedlaethol oedd y rhain yn hytrach na gofynion y cynllun.

5.9 Cadarnhaodd y PSTC MacArthur y byddai clinigau pensiwn yn cael eu cyfathrebu trwy Benaethiaid Gorsafoedd ac roedd cynlluniau hefyd ar waith i recordio sesiynau fel y gallent fod ar gael ar y fewnrwyd i bobl eu gwylio yn eu hamser eu hunain. Cytunwyd y byddai'r Cynrychiolydd System Dyletswydd Ar Alwad yn cael ei gynnwys yn y cyfathrebiadau hyn.

5.10 Gofynnodd Aelod pam nad oedd rhai unigolion efallai wedi cael Datganiad Gwasanaeth Rhwymedïol (RSS) eto ac atebwyd mai'r rhai nad oeddent mewn sefyllfa anfantais fyddai'r olaf i'w derbyn.

5.11 Nodwyd, hyd at yr wythnos hon, fod un cais ail ddewis yn cael ei dalu a dau daliad yn yr arfaeth.

5.12 Cynghorwyd yr aelodau bod gwahanol ffyrdd o gyfrifo ar gyfer yr ymarferiad ail ddewis yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolion ac felly roedd yn amhosibl rhoi amserlenni pendant ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn.

5.13 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 6 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR

6.1 Cyflwynodd Martin Morgan adroddiad y Gweinyddwr a roddodd ddiweddariad i'r Aelodau ar gynnydd sawl prosiect a oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â rhoi gwybodaeth am faterion perthnasol wrth weinyddu buddion y cynllun.

6.2 Nodwyd bod nifer yr aelodau gohiriedig wedi gostwng o 100 i 61 ers yr adroddiad diwethaf, a chadarnhaodd Dyfed fod rhai aelodau nad oeddent wedi bod yn rhan o'r cwmpas erbyn deall.

6.3 Gofynnwyd a oedd unrhyw lenyddiaeth mewn perthynas â Fy Mhensiwn Ar-lein y gellid ei gyfathrebu i aelodau gan y Gwasanaeth i'w hannog i gofrestru, a chadarnhaodd Dyfed y byddai'r rhain yn cael eu rhoi ynghyd â rhifau cyswllt.

6.4 Pwysleisiodd y PSTC MacArthur fod Fy Mhensiwn Ar-lein yn offeryn gwerthfawr i aelodau ac felly dylid eu hannog i gofrestru. Gofynnwyd i Gynrychiolwyr Staff hyrwyddo hyn gymaint â phosibl.

6.5 Gofynnwyd i Dyfed a fyddent yn cysylltu'n uniongyrchol ag aelodau mewn perthynas â Fy Mhensiwn Ar-lein a chadarnhaodd Martin Morgan y byddent. Cynghorodd hefyd fod gwaith yn cael ei wneud i gynhyrchu dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

6.6 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 7 DIWEDDARIAD AR HYFFORDDIANT

7.1 Atgoffwyd yr aelodau eu bod yn ofynnol i o leiaf gwblhau'r hyfforddiant TPR ac y dylent anfon eu tystysgrif at Wasanaethau Aelodau ar ôl i hyn gael ei wneud fel y gellid cadw cofnod.

7.2 Os oedd unrhyw aelod yn teimlo bod ganddynt angen hyfforddiant penodol, fe'u hanogwyd i gynghori y PSTC MacArthur fel y gellid rhoi hyfforddiant yn y maes hwn.

## 8 RHEOLI RISGIAU – CYLLIDO

8.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur ddiweddariad i'r Aelodau ar y trefniadau rheoli risg ar gyfer cyllido.

8.2 Cafodd y risgiau cyllido a gynhwyswyd ar y gofrestr eu harchwilio a'u trafod yn unigol yn fanwl. Eglurwyd bod cyllid ar gyfer y cynlluniau pensiwn yn dod o gyfuniad o gyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr, a grant atodol gan Lywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd pe na bai'r cyfraniadau'n ddigonol i ariannu'r cynllun.

8.3 Cytunwyd y byddai ffigurau lefel uchel mewn perthynas ag ymddeol oherwydd afiechyd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn flynyddol.

8.4 Tynnodd y PSTC MacArthur sylw at y ffaith bod problemau gyda chynnal cynnyrch y gweithwyr yn fater cenedlaethol a'i fod yn cael ei fonitro trwy Fwrdd Cynghori'r Cynllun (SAB) ar gyfer Cymru.

8.5 **PENDERFYNWYD:**

**I) Ystyried a chymeradwyo'r risgiau ariannu sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân.**

**9 BWRDD YMGYNGHORI'R CYNLLUN**

9.1 Rhoddodd Helen MacArthur ddiweddariad llafar i'r Aelodau ar gynnwys cyfarfod diwethaf y SAB.

9.2 Cynghorwyd yr aelodau bod unrhyw faterion a godwyd yn y cyfarfodydd hyn yn cael eu cyfeirio i'r SAB.

**10 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO AT SYLW'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

10.1 Nid oedd unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at sylw'r Awdurdod.

**11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

11.1 Cadarnhawyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 2 Ebrill 2026 am 09:30 o'r gloch.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:22